**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl ar 25 Chwefror 2004 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), M.Ll. Davies (sylwedydd), E.C. Edwards, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, (cyrhaeddodd 11.35 am) K.N. Hawkins, D.M. Holder, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, D. Jones, G. Jones, P. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, D.A. Thomas, D.A.J. Thomas, S.Th omas, K.E. Wells, C.H. Williams, E.W. Williams (sylwedydd/aelod lleol), P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Prif Swyddog Cynllunio (De), Swyddog Gweinyddu (G. Butler) a Chyfieithydd (B. Jones).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr J. Butterfield, S. Drew ac N. Hughes.

**1016 MATERION BRYS**

Dim

**1017 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Benn aeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir)1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth, 1990 i'r datblygiad a fwriedir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| **Rhif y Cais** | **Disgrifiad a Lleoliad** |
|---|---|
| 01/2003/0793/PF | Newid defnydd rhan o'r adeilad fferm presennol yn gynelau preswyl a hostel anifeiliaid.<br>Fferm Brookhouse Brookhouse Dinbych. |
| 02/2004/0001/PF | Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Gyngor Tref Rhuthun.<br>Codi annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.<br>Tir yn gyfagos i Oaklea Bryn Goodman Rhuthun. |

*Yn amodol ar:* Amod Diwygiedig 4 – Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu ddechrau ar y fynedfa arfaethedig i'r safle hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hunion fanylion, i gynnwys manylion trychiadol adeiladwaith yr wyneb a'r is-wyneb, ymylon a draeniad, a chamau i ddiogelu'r coed sy'n union gyfagos.

*Rheswm: Sicrhau bod yr holl gamau rhesymol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r coed y ddwy ochr i'r fynedfa.*

03/2003/0848/PF

Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llangollen a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd.

Dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd yn ei lle a thanc carthion newydd.

Byngalo Bryn Hyfryd Dinbren Llangollen.

*Yn amodol ar:* Amod Diwygiedig 6 – Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni chaniateir i unrhyw waith ddechrau ar y system draeniad budr i wasanaethu'r annedd hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ar ôl ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, i'r union fath o system sydd i'w gosod, i gymryd bodolaeth twll turio cyflenwad dwr a'r rhwydwaith pibelli cyflenwad dwr presennol i'r annedd arfaethedig ac eraill yn y cyffiniau i ystyriaeth.

Nodyn newydd i'r ymgeisydd –

1. Tynnir eich sylw at Gyfarwyddyd amgaeëdig Asiantaeth yr Amgylchedd i'r datblygwr yn ymwneud â chamau rheoli llygredd perthnasol sydd eu hangen wrth i'r datblygu fynd yn ei flaen.

2. Fe'ch cynghorir hefyd na ddylai fod dim ymyrraeth â'r llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg yn agos at y safle ar unrhyw adeg.

16/2003/1342/PF

Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad – nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gwrthwynebu; hefyd y waliau allanol i fod yn garreg/rendr a'r to o lechi.

Codi byngalo dormer ar ei ben ei hun, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc carthion newydd.

Tir yn Kingsmead Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun.

*Yn amodol ar:* Amod Diwygiedig 4 – Mae Wyneb y fynedfa arfaethedig i'w balmantu â defnydd bitwminaidd am bellter o 5.0m o leiaf y tu ôl i derfyn y briffordd, ac mae terfyn y fynedfa gyda'r briffordd i'w ffurfio gyda chyrbau trwyn byr cyn i neb fyw yn yr annedd.

Amodau Newydd 8 a 9 –

8. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl tirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo ac mae cynllun o'r fath i gynnwys manylion: (a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y tir ar hyn o bryd, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a chamau i'w diogelu wrth i'r datblygiad fynd yn ei flaen. (b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, niferoedd, a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu; (c) defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar y dramwyfa/tramwyfeydd, llwybrau a mannau wyneb caled eraill; (d) cloddio arfaethedig, graddio a phentyrru tir a newidiadau yn y lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrrau arfaethedig â'r llystyfiant presennol a'r tirffurf o gwmpas; (e) Safleoedd arfaethedig, dyluniad, defnyddiau a math o driniaeth terfyn.

9. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, walio neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf wedi i rywun symud i fyw i annedd olaf y datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu symud oddi yno neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am eraill o faint a rhywogaeth debyg.

*Rhesymau dros 9 a 10.: "Er lles amwynder gweledol "*

20/2003/1434/PF

Ar ôl ystyried y dyddiad darfod, (26 Ionawr 2004 ddylai fod) a dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanfair D.C. a Phennaeth Cludiant a Seilwaith.

Codi annedd breswyl, gosod gwaith trin preifat ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau.

Tir yn gyfagos i Cilgwyn Pentrecelyn Rhuthun.

*Yn amodol ar:* Amodau Newydd 9, 10 ac 11

9. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cadw o fewn y safle i gerbydau barcio a throi yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd ac maent i'w cwblhau cyn dechrau defnyddio'r datblygiad arfaethedig.

10. Mae wyneb y fynedfa arfaethedig i'w balmantu â defnydd bitwminaidd am bellter o 5.0m y tu ôl i derfyn y briffordd i gymeradwyaeth yr Awdurdod Priffyrdd cyn dechrau defnyddio'r datblygiad.

11. Nid yw'r wal, y gwrych neu'r ffens y ddwy ochr i'r fynedfa arfaethedig i fod dim uwch na 1.05m uwchben y ffordd gerbydau gyfagos.

| | |
|---|---|
| | *Rhesymau:*<br>*9. Darparu ar gyfer parcio cerbydau yn glir o'r briffordd a sicrhau nad oes rhaid bacio cerbydau i'r briffordd neu o'r briffordd er lles diogelwch traffig.*<br>*10. Sicrhau y ffurfir mynedfa ddiogel a boddhaol.*<br>*11. Sicrhau y darperir gweledEdd digonol wrth y mynediad arfaethedig i'r briffordd.* |
| 23/2003/1244/PF | Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad a llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Reolwr Rheoli Llygredd;<br>Cais ôl-weithredol i godi estyniad i'r adeilad amaethyddol presennol i ddarparu parlwr a llaethdy a chodi silo.<br>Penbryn Llan Llanrhaeadr Dinbych.<br>*Yn amodol ar:* Amod Newydd 3 – O fewn 3 mis i ddyddiad y caniatâd hwn, mae camau i'w cymryd i atal dwr/piswail o'r safle rhag mynd i'r briffordd gyhoeddus; mae camau o'r fath i fod yn gyfan gwbl unol â manylion sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn eu gweithredu.<br>*Rheswm: Er lles defnyddwyr y briffordd gyhoeddus*. |
| 28/2003/1456/PF | Codi estyniad i'r annedd bresennol.<br>5 Maes yr Efail Henllan Dinbych. |
| 40/2004/0011/PF | Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig. (Cynghorwyd yr Aelodau hefyd na ddylent gymryd sylwadau dienw i ystyriaeth o gwbl.)<br>Codi estyniad llawr cyntaf to serth dros y garej bresennol wrth ochr yr annedd a chanopi newydd yn y cefn.<br>12a Llwyn Harlech Bodelwyddan Y Rhyl. |
| 42/2003/1494/PO | Ar ôl ystyried cynllun safle diwygiedig a gylchredwyd.<br>Datblygu 0.17ha o dir at ddibenion preswyl (cais amlinellol).<br>Tir yn gyfagos i Rif 19 Rhodfa Gofer Dyserth Y Rhyl.<br>*Yn amodol ar:* Amod Newydd 7 – Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, walio neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf wedi i rywun symud i fyw yn annedd olaf y datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu symud oddi yno neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am eraill o faint a rhywogaeth debyg. |

| | |
|---|---|
| | Nodyn Diwygiedig i'r Ymgeisydd – Ychwanegu'r canlynol at yr ail nodyn i'r ymgeisydd: "Dylid defnyddio'r man hwn i adeiladu'r llwybr troed fel y mynnir gan amod rhif 6". |
| 43/2003/1431/PF | Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 5 Mawrth 2004 (cynlluniau diwygiedig – ailymgynghori).<br><br>Codi ystafell wydr y tu ôl i'r ty annedd.<br>17 Princes Avenue, Prestatyn<br>*Yn amodol ar:* Amod Newydd 3 – Mae gweddlun dwyreiniol yr ystafell wydr a ganiateir drwy hyn i'w lunio gyda gwydriad mewn gwydr tywyll uwchben y wal waelod ac nid yw ei adeiladwaith i fod yn wal soled.<br>*Rheswm: Er lles amwynder preswyl.* |
| 43/2003/1444/PF | Ar ôl ystyried newid i'r adroddiad – enw'r ward yw Prestatyn nid Rhuddlan.<br>Codi annedd ar ei phen ei hun a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau.<br>Tir yn Claremount Meadows Lane Prestatyn.<br>*Yn amodol ar:* Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd – Gofynnir ichi sicrhau nad yw traffig adeiladu yn defnyddio Meadows Lane yr adeg y mae ysgolion yn dechrau ac yn gorffen oherwydd defnydd sylweddol y lôn fel ffordd ddiogel i'r ysgol. Mae'r lôn hefyd yn llwybr cyhoeddus. Yr adegau brig y mae ysgolion yn ei defnyddio yw 08.30 tan 09.00 yn y bore a 15.00 tan 16.00 yn y prynhawn. |
| 43/2003/1504/PF | Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 11 Mawrth 2004.<br>Ar ôl ystyried llythyrau yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Archeolegydd y Sir a'r Cynghorydd Sophia Drew<br>Dymchwel y sinema a'r siopau presennol, cadw rhan o'r ffasâd presennol a chodi cyfadeilad sinema a theatr newydd, ystafelloedd cyfarfod cymunedol, caffi/bar, siop a theras to.<br>Sinema'r Scala a Chanolfan Groeso 45/47/49 Stryd Fawr Prestatyn.<br>*Yn amodol ar:* Bod caniatâd ardal gadwraeth yn cael ei roi gan CADW. |
| 44/2003/1111/PO | Ar ôl ystyried cywiriad i baragraff 3 (dylai ddarllen "22 annedd") a llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan a Phennaeth Cludiant. |

Datblygu 1.4hectar o dir at ddibenion preswyl a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau (Cais amlinellol).
Abbey Nurseries Abbey Road Rhuddlan Y Rhyl.
*Yn amodol ar:* bod yr ymgeisydd yn gwneud Ymrwymiad Adran 106 yn ymdrin â lle agored oddi ar y safle, cynnal a chadw a mabwysiadu lle agored ar y safle, a darpariaeth tai fforddiadwy.
Ychwanegu Amodau 1, 20 a 21,
1. Mae cymeradwyaeth i fanylion lleoliad, dyluniad a golwg allanol yr adeilad(au), a thirlunio'r safle (a elwir wedi hyn "y materion a gadwyd yn ôl") i'w chael gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ysgrifenedig cyn dechrau unrhyw ddatblygu.
20. Mae'r lleiniau gweledεdd a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd bob amser i'w cadw'n glir o unrhyw blannu, tyfiant coed neu lwyni, neu unrhyw rwystr arall sy'n fwy na 0.75 metr uwchben lefel y ffordd gerbydau gyfagos.
21. Mae gweddlun manwl, dyluniad, modd o arafu traffig, goleuadau stryd, arwyddion, draeniad ac adeiladwaith y fynedfa i Abbey Road, y ffordd stad fewnol a'r llwybrau troed a ledwyd ar Abbey Road i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn dechrau unrhyw waith ar y safle a'u darparu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd ac Amod Rhif 5.
*Rheswm: Er lles diogelwch y briffordd ac amwynder.*
Nodiadau i'r Ymgeisydd 1, 2, 3 a 4 -
1. Tynnir eich sylw at Nodiadau Atodol Priffyrdd Rhif 1, 3, 4, 5 a 10 sy'n amgaeëdig.
2. Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N sy'n amgaeëdig (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).
3. Tynnir eich sylw at y nodiadau amgaeëdig yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros lwybr troed/ymyl ffordd o dan Adran 184 o Ddeddf Priffyrdd 1980.
4. Tynnir eich sylw at fanyleb amgaeëdig y Cyngor Sir ar gyfer adeiladu ffyrdd, gosod goleuadau priffyrdd, ac arwyddion traffig a marciau ffordd.

44/2003/1483/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd F.D. Jones ddiddordeb yn y cais canlynol (cymerodd y Cynghorydd Ll. Williams y gadair)
Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 2 Mawrth 2004.

Ar ôl ystyried naw llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Cludiant, Cymdeithas Amgylchedd Y Rhyl, saith preswylydd lleol – J. Hemmings, 127 Ffordd Derwen, Y Rhyl; T. Logan, 117 Ffordd Derwen, Y Rhyl; Mrs E. Smith, 95 Ffordd Derwen, Y Rhyl; Kay Fynan, 125 Ffordd Derwen, Y Rhyl; Helen Hudson, 115 Ffordd Derwen, Y Rhyl; E. Unsworth, 113 Ffordd Derwen, Y Rhyl a Mrs J. Hodgeson, 123 Ffordd Derwen, Y Rhyl.

Codi ysgol anghenion arbennig newydd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a darparu parcio ar y safle ar gyfer 103 o geir a 3 minibys.

Ysgol Tir Morfa, Ffordd Derwen, Y Rhyl.

*Yn amodol ar:* Amodau Diwygiedig 6 a 8

6. "Rhan 1 o"

8. Y llwybr troed at ffryntiad y safle cyfan, y mannau croesi i gerddwyr, a'r fynedfa, ayb…."

Amodau Newydd 11, 12 a 13 –

11. Mae'r lleiniau gweledig a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd bob amser i'w cadw'n glir o unrhyw blannu, tyfiant coed neu lwyni, neu unrhyw rwystr arall sy'n fwy na 1.05 metr uwchben lefel y ffordd gerbydau gyfagos.

12. Mae modd cadarnhaol o atal goferiad dwr wyneb oddi ar y safle i'r briffordd i'w ddarparu yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo a'u cadw cyhyd ag y mae'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn mewn defnydd.

13. Mae manylion lefelau llawr gorffenedig yr adeilad a'r lleoedd parcio ceir i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn dechrau'r datblygiad ac mae'r adeilad a'r lleoedd parcio i'w hadeiladu'n unol â'r lefelau a gymeradwywyd.

*Rhesymau: 12 – Er lles diogelwch y briffordd a 13 – I atal perygl llifogydd.*

Nodyn newydd i'r ymgeisydd 1 a 2 –

1. Tynnir eich sylw at y posibilrwydd y gall madfallod dwr cribog fod yn chwilenna yng nghyffiniau'r safle. Mae madfallod dwr cribog yn rhywogaeth warchodedig Ewropeaidd ac mae hi'n drosedd difrodi neu ddinistrio eu safleoedd magu neu orffwysfannau. Dylech fodloni eich hun na fydd madfallod dwr cribog yn cael eu heffeithio cyn cyflawni'r datblygiad.

2. Awgrymir bod danfoniadau i'r safle tra fo'r adeiladau'n cael eu hadeiladu yn cael eu rhaglennu fel eu bod yn osgoi amseroedd brig dechrau a gorffen yr ysgol.

45/2003/1480/PC

Cadw porth car (cais ôl-weithredol).

115 Ffordd y Glannau, Y Rhyl.

46/2003/1445/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd D.A. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oeddid yn ei ystyried.
Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 1 Mawrth 2004.
Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llanelwy; Ecolegydd y Sir; Pamela Hodkin, 44 Rhodfa Glenys.
Codi 9 o dai ar eu pen eu hunain, newidiadau i'r gyffordd ffyrdd ac arafu traffig ar hyd Mount Road a Bryn Gobaith, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a ffurfio ardaloedd cynefinoedd bywyd gwyllt.
Bryn Gobaith, Llanelwy.
*Ar yr amod bod* yr ymgeisydd yn gwneud Ymrwymiad Adran 106 yn rhoi sylw i'r materion canlynol: (1) Y cyfraniad tuag at ddarparu datblygiad tai fforddiadwy oddi ar y safle ar gyfer Heol Clwyd, Llanelwy. (2) Cynigion manwl o ran lliniaru a rheoli yn y dyfodol ar gyfer cynefin Madfallod Dwr Cribog i sicrhau statws cadwraeth tymor hir safle'r cynefin. (3) Gwella cyffordd y briffordd/arafu traffig wrth gyffordd Mount Road/Bryn Gobaith ac ar hyd Ffordd Bryn Gobaith.

**<u>Gwrthod</u>**

21/2003/1339/PF

Ar ôl ystyried eglurhad cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â'r term "annedd", a materion trethu.
Codi estyniad ystafell wely.
Camp Alyn Tafarn-y-Gelyn Llanferres Yr Wyddgrug.

23/2003/1158/PO

Datblygu tir drwy godi annedd (cais amlinellol).
Tir yn gyfagos i Ffordd Las Mynydd Llech Llanrhaeadr Y.C. Dinbych.

23/2003/1238/PF

Cyhoeddodd y Cynghorwyr Selwyn Thomas ac R.E. Jones (heb fod yn ariannol) ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawsant y Siambr tra oeddid yn ei ystyried.
Ar ôl ystyried dileu paragraff 5 a llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanrhaeadr YC, MI ac S Boyd, Minafon Llanrhaeadr; Pennaeth Cludiant a Seilwaith; Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd; Rheolwr Rheoli Llygredd.
Newid defnydd tir o safle carafanau teithiol 12 fan yn safle carafanau statig 12 fan.
Maes Carafanau Llwyn Afon, Llanrhaeadr, Dinbych.

(Dymunai'r Cynghorwyr P.O. Williams a D. Jones iddo gael ei nodi eu bod wedi pleidleisio i roi caniatâd cynllunio).

**Ymweliad Safle**

12/2003/1462/PO

Datblygu tir at ddibenion preswyl, gosod tanc carthion newydd a ffurfio mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol).
Tir gyferbyn â Chapel Derwen, Derwen, Corwen.
*Yn amodol ar:* Ymweliad safle i asesu'r cais yn ôl polisïau cynllunio.

**Gohirio**

30/2002/1129/PF

Codi 26 o anheddau, llunio mynedfa a ffurfio lle agored, man chwarae a thirlunio, adeiladu gorsaf bwmpio a ffurfio ardaloedd lliniaru cadwraeth natur.
Tir oddi ar (yn ffurfio parhad o) Ffordd Pen y Maes, Parc Grosvenor Trefnant Dinbych.
Gohiriwyd ar gais Swyddogion i ganiatáu:

1. Ystyried sylwadau sylweddol a dderbyniwyd ers paratoi'r adroddiad. Dylai hyn gynnwys gofyn am farn gyfreithiol ar oblygiadau'r broses CDU, Penderfyniad Apêl Bronallt, a'r profion Cyfarwyddeb Cynefinoedd sydd i'w cyflawni.
2. Trafodaethau pellach ar ddarpariaeth tai fforddiadwy yn ymwneud â'r datblygiad.

43/2003/1389/PF

Codi 19 o anheddau (newidiadau i'r mathau o dai) ac adeiladu pwll cydbwyso (yn rhannol ôl-weithredol).
3-7 a 20-33, Melyd Avenue, Prestatyn.
Gohirio i aros ymatebion ymgynghori allweddol.

**1018 MATERION GORFODI**

Enf/2004/07

Ar ôl ystyried cynllun graddfa 1:5000 ychwanegol a gylchredwyd.
Defnydd preswyl o uned barod gludadwy a defnyddio tir yng nghefn gwlad at ddibenion preswyl.
Gon Rite, Bachymbyd, Llanrhaeadr YC.
***PENDERFYNWYD*** *(1) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y ceir gwared ar yr uned ddeulawr oddi ar y tir ac y rhoddir y gorau i ddefnydd preswyl y safle. (2) Cychwyn achos erlyn, neu gamau priodol eraill o dan y Deddfau Cynllunio, yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi neu Rybuddion eraill o'r fath iddynt, petaent yn peidio â chydymffurfio â'u gofynion.*

**1019 SIARAD CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn am ystyried rhoi siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio mewn grym a chytuno protocol.

Roedd yr Aelodau'n gyffredinol o blaid caniatáu siarad cyhoeddus, a fyddai'n gwneud y broses gwneud penderfyniadau yn fwy agored.

Mynegwyd pryderon ynghylch y rheolaeth sydd ei hangen, yr angen i gadw'n llym at derfynau amser a'r posibilrwydd o grynswth gwaith ychwanegol i'r staff gweinyddu.

Cafodd cynnig arall, i gychwyn y cyfnod prawf ar ôl etholiad mis Mehefin, ei drechu.

Wedi peth trafodaeth fe:-

***BENDERFYNWYD** bod yr Aelodau'n argymell i'r Cyngor Sir fod siarad cyhoeddus i'w fabwysiadu am gyfnod prawf o ddau fis yn cychwyn ar 21 Ebrill 2004 i'w adolygu ar ôl yr Etholiadau Sir ym mis Mehefin.*

*Penderfynwyd ymhellach seilio'r protocol ar gyfer siarad cyhoeddus ar y cynnig a gyflwynwyd, yn amodol ar fân newidiadau yn ymwneud â manylion cysylltu.*

**1020 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

***PENDERFYNWYD** cynnal yr ymweliad safle ar ddydd Mawrth 2 Mawrth 2004 (yn y prynhawn).*

Yn dilyn ceisiadau a wnaed yng nghyfarfod 28 Ionawr 2004, cynghorwyd yr Aelodau ar fater cyfrinachedd – na ddylai manylion ymweliadau safle gael eu trafod yn gyhoeddus cyn cyhoeddi agenda'r Pwyllgor – a chydbwysedd gwleidyddol. Gofynnodd y Cynghorydd Ann Owens fod sefyllfa'r aelodau amhleidiol i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD** cadarnhau a dosbarthu'r Canllawiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 28 Ionawr 2004 mewn diwyg dwyieithog cyn gynted â phosibl.*

**1021 RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) o'r ymgeiswyr am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af a 31ain Ionawr 2004.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

**1022 EITEM YCHWANEGOL**

**GWEITHGOR ADOLYGU'R CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL**

Cyflwynwyd llythyr oddi wrth Reolwr y Cynllun Datblygu a Pholisi yn gofyn am bum (5) enwebiad o blith Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, i eistedd ar Weithgor Adolygu'r CDU.

Teimlai'r Aelodau er bod angen yr adolygiad, y gellid ei gychwyn ar ôl Etholiadau Sir Mis Mehefin i ganiatáu i Aelodau newydd fod yn rhan o'r broses.

***PENDERFYNWYD*** *cytuno cyfansoddiad y Panel Adolygu ond nad yw enwebiadau o'r Pwyllgor Cynllunio i'w penderfynu tan ar ôl Etholiadau Sir Mis Mehefin.*

(Ataliodd y Cynghorydd M. German ei bleidlais ar yr eitem hon).

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m.

*******